ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Creu Cerddoriaeth a Seiniau

TGCh Blwyddyn 2

Trosolwg o'r Uned hon:
Anogir y plant i greu cyfansoddiadau cerddorol ar sgrin gan ddefnyddio lluniau sy'n cynnwys ymadroddion cerddorol. Maent yn creu eu cyfansoddiadau wrth ffurfio dilyniant neu batrwm i ychwanegu strwythur at eu tôn ac yn ystyried ymadrodd agor a chau addas. Maent yn gallu gwerthuso eu cyfansoddiadau cerddorol a gwneud newidiadau gan newid tempo ac offerynnau a Chadw ac Adalw eu gwaith gyda chymorth. Maent yn gallu siarad am eu gwaith, rhannu syniadau ag eraill ac yn gallu cyfeilio eu cyfansoddiadau gydag offerynnau cerddorol a pherfformio a chwarae eu tôn i eraill. Mae'r plant yn defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau i recordio seiniau fel recordyddion tâp, Tuniau siarad, chwaraewyr MP3 a microffonau i recordio iaith lafar, seiniau a wneir gan offerynnau cerddorol neu seiniau yn yr amgylchedd.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu: Defnyddio meddalwedd cerddorol i greu cyfansoddiadau ac yn gallu recordio a defnyddio seiniau yn eu gwaith. Maent yn Cadw ac Adalw eu gwaith gyda chymorth.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: Defnyddio meddalwedd cerddorol i greu dilyniant o ymadroddion cerddorol ac mae'n bosibl bydd angen help arnynt i Gadw ac Adalw eu gwaith.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: Defnyddio meddalwedd cerddorol i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol ac yn dechrau Cadw ac Adalw eu gwaith yn annibynnol. Maent yn gallu cydweithio ac yn dechrau defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau i recordio sain i bwrpas.

ALLWEDD :

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSDWBCD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (WLD)	Datblygiad Creadigol (CD)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (KUW)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**OP**)
Datblygiad Mathemategol (MD)	Datblygiad Corfforol (PD)	Chwarae Rôl (**RP**)

PSEWBCD LL MD WLD KUW PD CD OP RP

Blwyddyn 2 **Creu a Chyfathrebu Gwybodaeth**

Asesiad yr Athro/Athrawes: *Dylai'r sgiliau a ddangosir gan y plant ffurfio rhan o asesiad parhaus.*
Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol.
Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun gwaith hwn.

Recording Sheet Pupil Self Assessment

Creu Cerddoriaeth a Seiniau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu creu cyfansoddiad cerddorol ar sgrîn gan ddefnyddio dilyniant neu batrwm.	PSDWBCD C D L L C K U W M D	Defnyddio hwiangerddi, caneuon etc. i ddangos i'r plant bod patrymau gan gerddoriaeth. Annog y plant i ddefnyddio patrwm i ddilyniannu eu hymadroddion cerddorol i gyfansoddi tôn. Siarad am y nifer o nodau yn yr ymadroddion a nodau uwch is. Mae'r plant yn gwneud eu cyfansoddiadau gan ddefnyddio lluniau sy'n cynnwys ymadroddion, patrwm a strwythur cerddorol. Maent yn cynnwys ymadrodd agor a chau addas ac yn ailadrodd ymadroddion wrth gyfansoddi eu tôn. Mae'r plant yn gallu cyfeilio eu tonau gydag offerynnau cerddorol go iawn.	Patrwm Dilyniant Tôn Ymadrodd Cyfansoddiad	Meddalwedd cerddorol Offerynnau Dyfeisiau recordio	
Yn gallu gwerthuso cyfansoddiadau cerddorol a gwneud newidiadau.	PSDWBCD L L C C D	Dangos i'r plant sut i newid y tempo a dewis offerynnau neu ymadroddion cerddorol eraill i newid modd neu deimlad eu cyfansoddiad. Mae rhaid iddynt ystyried y tempo a dewis eu hofferyn a siarad am eu dewisiadau.	Tempo Offerynnau Modd Ymadroddion	Meddalwedd Offerynnau cerddorol	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu Cadw ac Adalw cyfansoddiadau cerddorol gyda chymorth.		Mae'r plant yn cadw ac adalw eu cyfansoddiadau cerddorol gyda chymorth. (*Mae meddalwedd sy'n caniatáu i ddisgyblion gadw eu gwaith eu hunain yn syrthio i'r categori hwn.)*	Cadw Adalw	Meddalwedd cerddorol	
Yn gallu defnyddio cymhwysiad cerddorol i gyflwyno eu tôn i eraill.		Caniatáu i'r plant berfformio eu cyfansoddiadau i eraill a siarad am eu dewisiadau.	Perfformiad Cyfansoddiad	Meddalwedd cerddorol Offerynnau	
Yn gallu siarad am waith a rhannu syniadau ag eraill.		Dangos set o ymadroddion cerddorol sydd wedi eu cymysgu i'r plant ac wrth ailddrefnu'r eiconau yn y dilyniant cywir maent yn gallu ail-greu tôn gyfarwydd. Annog y plant i aildrefnu set o ymadroddion wedi eu cymysgu i ail-greu tôn gyfarwydd.	Eiconau Tôn	Meddalwedd cerddorol	
Yn gallu defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau i recordio seiniau.		Mae'r plant yn defnyddio dyfeisiau recordio sain fel recordyddion tâp, Tuniau siarad, chwaraewyr MP3 a microffonau i recordio seiniau a wneir gan offerynnau cerddorol neu seiniau yn yr amgylchedd. Gellir defnyddio'r seiniau hyn i ychwanegu effeithiau at stori, darn o farddoniaeth neu gynrychioli gwahanol fathau o dywydd etc.	Dyfeisiau recordio	Dyfeisiau recordio sain amrywiol Offerynnau cerddorol	